LEFEL 5

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

TACHWEDD 2019

Cynnwys

	Rhif tudalen
Cyflwyniad	1
Strwythur y cymhwyster	2
Nodau ac amcanion y pwnc	3
Cynnwys y pwnc	3
Cynllun asesu	4
Canlyniadau	4
Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo	5
Gofynion rhesymegol	5
Gofynion gweithredol	6
Atodiad A	8

Mae hon yn **Ddogfen Reoleiddio** o dan **Amod B7** o'r *Amodau Cydnabod Safonol (Hydref 2018)*[1]*: Cydymffurfio â Dogfennau Rheoleiddio.*

[1] https://www.qualificationswales.org/english/publications/standard-conditions-of-recognition/

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer. Datblygwyd y rhain drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolygon ar-lein. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu'r fanyleb a deunyddiau asesu ar gyfer cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn rôl reoli o fewn lleoliad gofal plant rheoledig.

Mae'r cymhwyster hwn yn bennaf ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant wedi'u rheoleiddio gyda theuluoedd a phlant o dan 8 oed a gwasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant 0 - 19.

Mae'r cynnwys yn adlewyrchu ystod o wahanol rolau ac oedrannau.

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i gael ei ddarparu gan amrywiaeth o ddarparwyr dysgu gan gynnwys darparwyr dysgu seiliedig ar waith ac addysg bellach, ar gyfer dysgwyr sy'n 18 oed neu'n hŷn. Mae'r cymhwyster hwn yn adeiladu ar wybodaeth a gafwyd trwy'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Lle bo'n briodol, dylai'r cymhwyster hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys cyfathrebu, llythrennedd, cymhwysedd digidol a rhifedd.

Bydd y meini prawf cymeradwyo yn y ddogfen hon yn dod i rym o fis Tachwedd 2019 ac yn cael eu hadolygu yn 2022.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ar gyfer addysgu ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gyfres yn cynnwys y cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

Bydd yr holl gymwysterau yn y gyfres yn cael eu cyfyngu i un ffurf yn unig ar gyfer pob cymhwyster am gyfnod o bum mlynedd. Ar gyfer y cymhwyster hwn, bydd y cyfnod yn dechrau ar 1 Medi 2020. Mae hyn yn golygu mai dim ond un corff dyfarnu gaiff ddyfarnu pob cymhwyster. Ar ôl proses gaffael deg a thryloyw a gynhaliwyd rhwng Ionawr 2017 ac Awst 2017, mae Cymwysterau Cymru wedi contractio gyda

chonsortiwm o City & Guilds of London Institute a CBAC i ddatblygu a chyflwyno'r holl gymwysterau yn y gyfres ar y cyd.

Bydd Cymwysterau Cymru ond yn cymeradwyo cymhwyster sy'n bodloni'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon ynghyd â'r rhai a nodir yn yr Amodau Cydnabod Safonol. Wrth ddatblygu cymwysterau i fodloni'r gofynion hyn, rhaid i gyrff dyfarnu roi sylw i *Fynediad Teg trwy Ddylunio*. Rhaid i'r corff dyfarnu a gomisiynir hefyd fodloni'r holl ofynion a nodir yn y contract consesiynau a ddyfarnwyd yn ystod y camau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a chyflwyno'r cymhwyster.

Pan fo gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a ragnodir yn yr Amodau Cydnabod Safonol, bydd y gofynion yn y ddogfen hon yn cael blaenoriaeth.

Strwythur y cymhwyster

1. Rhaid i fanyleb Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer gynnig ardystiad cymwyster gyda Chyfanswm Oriau Cymhwyso o 1200 awr (120 credyd) i ddysgwyr a bydd angen ei ddiffinio yn nhermau Oriau Dysgu Dan Arweiniad.
2. Mae'r cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer yn cynnwys unedau gorfodol (Grŵp A) ac unedau dewisol (Grŵp B), (gweler Atodiad A).
3. Rhaid i'r teitl cymhwyster sy'n ymddangos ar dystysgrifau fod fel a ganlyn:

   Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

4. Rhaid i gynllun Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer sicrhau:

   4.1 bod nodau ac amcanion y pwnc yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiadau i alluogi'r dysgwyr i arddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth;

   4.2 ei fod yn cefnogi dilyniant dysgwyr o gymhwyster Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

5. Rhaid i fanyleb Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer odi unrhyw reolau cyfuno sy'n berthnasol i'r cynnwys dewisol.

Nodau ac amcanion y pwnc

6. Rhaid i Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer alluogi dysgwyr i ddatblygu ac arddangos eu gwybodaeth, eu dealtlwriaeth, eu hymddygiad, eu sgiliau a'u hymarfer mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Yn benodol, dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn:

    6.1 deall a chymhwyso'n ymarferol amrywiaeth o gysyniadau, damcaniaethau a thechnegau arwain a rheoli;

    6.2 myfyrio ar eu harddulliau arwain a rheoli eu hunain ac eraill a deall sut y mae'r rhain yn effeithio ar y rhai y maent yn gweithio gyda nhw, o fewn a'r tu allan i'w lleoliad;

    6.3 arwain a rheoli gwelliannau mewn perfformiad mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygu plant;

    6.4 arwain a rheoli dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn ymarferol;

    6.5 arwain a rheoli'r broses o wella gwasanaethau o fewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant;

    6.6 gweithio fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol i lunio barn wybodus sy'n cynnwys defnyddio a dehongli data;

    6.7 defnyddio sgiliau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol o fewn eu rôl.

Cynnwys y pwnc

7. Rhaid i gynnwys manyleb Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.

8. Rhaid i fanyleb Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer gynnwys:

    8.1 y cynnwys gorfodol (Grŵp A) a bennir yn Atodiad A; a'r

    8.2 cynnwys dewisol (Grŵp B) a bennir yn Atodiad A.

Cynllun asesu

9. Bydd yr asesiad ar gyfer Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer yn cael ei osod yn allanol, ei asesu'n allanol a'i sicrhau'n allanol o ran ansawdd. Bydd yr asesu'n cynnwys:

    9.1 portffolio o dystiolaeth sy'n cynnwys cofnodion o ymarfer a arsylwyd;

    9.2 prosiect busnes; a

    9.3 thrafodaeth broffesiynol.

10. Rhaid i'r asesiad nodi math a maint y dystiolaeth i'w chasglu at ddibenion asesu.

11. Rhaid i'r cymhwyster fod yr un mor heriol i bob dysgwr, ni waeth pa unedau a ddilynwyd.

12. Rhaid i'r cynllun asesu sicrhau:

    12.1 bod y meini prawf a'r gofynion ar gyfer yr ymarfer a gynhaliwyd, a'r trefniadau ar gyfer asesu'r ymarfer hwn, wedi'u nodi'n glir;

    12.2 bod unrhyw amodau a ganiateir ar gyfer cynnal asesiadau drwy efelychuwedi'u nodi'n glir, gan gynnwys enghreifftiau o amgylchedd gwaith realistig.

13. Rhaid dangos tystiolaeth o'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer y cynnwys gorfodol a dewisol drwy'r asesiadau.

14. Rhaid i'r meini prawf marcio ddangos sut mae pob agwedd ar asesu yn ymwneud â'r canlyniadau dysgu.

15. Rhaid i gyfleoedd asesu ar gyfer Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer fod ar gael drwy gydol y flwyddyn.

16. Rhaid i fanyleb Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer gynnwys manylion cyfleoedd i ailgyflwyno asesiadau.

Canlyniadau

17. Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r holl asesiadau gofynnol yn llwyddiannus (gan fodloni unrhyw reolau cyfuno) yn cael eu hardystio.

Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo

18. Wrth gyflwyno cymhwyster i Cymwysterau Cymru i'w gymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu:

18.1 dogfen fanyleb;

18.2 ystod gynrychioliadol o ddeunyddiau asesu enghreifftiol;

18.3 dogfen esboniadol (dogfen rhesymeg) sy'n amlinellu'r rhesymeg y tu ôl i brif nodweddion cynllunio'r cymhwyster a gynigir a sut maen nhw'n alinio â chasgliadau *Adolygiad y Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae*.

Gofynion rhesymegol

19. Pwrpas y ddogfen rhesymeg yw cefnogi'r broses o adolygu a chymeradwyo cymwysterau ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi.

20. Rhaid i'r ddogfen rhesymeg gynnwys esboniad dros:

20.1 strwythur y cymhwyster, gan esbonio'r rhesymau dros y ffordd y mae'r cynnwys wedi'i strwythuro a dangos sut y cyflawnwyd cymaroldeb rhwng gwahanol opsiynau;

20.2 y dull o ddatblygu a diweddaru asesiadau dros gyfnod o amser;

20.3 y strwythur asesu, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nifer, dyraniad y marciau a hyd yr asesiadau;

20.4 y cyfleoedd asesu sydd ar gael a'r dull o sicrhau bod y cyfleoedd hynny ar gael drwy gydol y flwyddyn;

20.5 dehongli'r deilliannau dysgu a sut maen nhw'n berthnasol i'r gwahanol gydrannau asesu;

20.6 dyluniad deunyddiau a chanllawiau asesu enghreifftiol, gan gynnwys y math a'r ystod o dasgau asesu ar draws y cymhwyster a'u perthynas â'r canlyniadau dysgu;

20.7 sut y caiff y meini prawf marcio eu dylunio a'u cymhwyso;

20.8 sut mae'r cymhwyster yn adlewyrchu cyd-destun Cymreig;

20.9 y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymwysterau hyn yn gyson ac i'r lefel briodol, gan gynnwys y broses ar gyfer gosod a chynnal safonau;

20.10 y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymhwyster, gan gynnwys y rhesymeg ar gyfer y ffin basio/methu arfaethedig wrth asesu a dyfarnu'r cymhwyster.

Gofynion gweithredol

21. Rhaid i'r fanyleb a/neu'r wybodaeth ategol nodi'r gofynion o ran gwybodaeth a chymhwysedd (pwnc ac asesu/sicrhau ansawdd) ar gyfer aseswyr ac aswirwyr ansawdd.

22. Rhaid i fanyleb y cymhwyster gynnwys manylion penodol am y gofynion gweithredol, gan gynnwys:

22.1 cofrestriadau;

22.2 sicrwydd ansawdd;

22.3 prosesau asesu allanol.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Imperial Park
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR
Enquiries@qualificationswales.org

Atodiad A - Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

Rhaid i fanyleb Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer gynnwys y cynnwys canlynol a'r canlyniadau dysgu canlynol. Mae hyn yn cyfrif am 100% o gyfanswm cynnwys a chanlyniadau dysgu'r cymhwyster.

Grŵp A: Cynnwys gorfodol

Bydd y cynnwys canlynol yn ffurfio cynnwys ymarfer gorfodol y cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

Meysydd Pwnc	Canlyniadau Dysgu
1. Arwain a rheoli ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn	1.1. Arwain y defnydd o ymchwil a gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer datblygiad cyfannol a lles plant 1.2. Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo hawliau plant a llais y plentyn 1.3. Arwain a rheoli lleoliadau sy'n cymhwyso dealltwriaeth o ddamcaniaethau datblygiad plant 1.4. Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo a chefnogi dysgu cyfannol, twf a datblygiad 1.5. Arwain a rheoli'r defnydd o chwarae i gefnogi dysgu, twf a datblygiad cyfannol plant 1.6. Arwain a rheoli'r broses gynllunio ar gyfer plant 1.7. Arwain a rheoli cefnogaeth ar gyfer newid a phontio
2. Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol	2.1. Arwain y broses o ddatblygu diwylliant cadarnhaol sy'n cymell ac yn ysbrydoli 2.2. Rheoli prosesau recriwtio a dethol effeithiol sy'n seiliedig ar werthoedd 2.3. Rheoli'r broses o ymsefydlu gweithwyr yn effeithiol yn seiliedig ar werthoedd 2.4. Rheoli datblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr drwy oruchwyliaeth ac adolygiadau o berfformiad 2.5. Rheoli perfformiad gwael 2.6. Rheoli gwrthdaro o fewn timau 2.7. Rheoli'r dasg o ddirprwyo tasgau 2.8. Arwain a rheoli arloesedd a newid
3. Arwain a rheoli ansawdd y gweithle/lleoliadau	3.1. Deall damcaniaethau, dulliau a modelau y gellir eu defnyddio i gefnogi'r gweithle/lleoliad i fodloni gofynion o ran safonau ansawdd 3.2. Rheoli'r broses o weithredu systemau, gweithdrefnau ac ymarfer i fonitro, mesur a gwella perfformiad y gweithle/lleoliad 3.3. Defnyddio dadansoddiad o ddigwyddiadau, canmoliaeth, pryderon a chwynion i wella'r gweithle/lleoliad
4. Ymarfer proffesiynol	4.1. Deall rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd rheolwr 4.2. Datblygu sgiliau arwain ac ymarfer moesegol sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi tegwch, cydraddoldeb ac

	amrywiaeth 4.3. Arwain a rheoli gwaith partneriaeth effeithiol 4.4. Arwain a rheoli gofynion gwybodaeth ar gyfer cyflwyno, cofnodi, adrodd a storio gwybodaeth 4.5. Sicrhau bod datblygiad proffesiynol parhaus eich hun yn bodloni gofynion deddfwriaethol, safonau a chodau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol
5. Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo diogelu plant	5.1. Arwain a rheoli cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a threfniadol ar gyfer diogelu plant 5.2. Datblygu a chynnal gwybodaeth a dealltwriaeth o ran diogelu plant 5.3. Arwain a rheoli ymarfer sy'n diogelu plant rhag niwed a cham-drin 5.4. Arwain a rheoli arferion sy'n cefnogi hawliau, dewis, lles a chydberthnasau cadarnhaol i hyrwyddo diogelu 5.5. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi plant i gael eu cadw'n ddiogel
6. Arwain a rheoli iechyd, diogelwch a diogeled yn y gweithle/lleoliad	6.1. Deall gofynion deddfwriaethol a rheoliadol o ran iechyd, diogelwch a diogeled yn y gweithle/lleoliad 6.2. Monitro a chynnal cydymffurfiaeth â gofynion iechyd, diogelwch a diogeled 6.3. Arwain a rheoli asesiadau risg iechyd a diogelwch ar gyfer plant 6.4. Rheoli'r risg o salwch sy'n gysylltiedig â gwaith

Grŵp B: Cynnwys dewisol

Bydd y cynnwys canlynol yn ffurfio unedau cynnwys ymarfer dewisol o fewn y cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

Meysydd pwnc	**Canlyniadau dysgu**
7. Arwain a rheoli iechyd, lles a dysgu creadigol o fewn y ddarpariaeth gofal plant	7.1. Arwain a rheoli'r broses o weithredu arferion, polisïau a gweithdrefnau cyfoes o fewn gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant 7.2. Arwain a rheoli amgylcheddau sy'n hyrwyddo arloesedd, creadigrwydd a dysgu creadigol 7.3. Arwain a rheoli ymarfer i gefnogi ymddygiad cadarnhaol wrth weithio gyda phlant 7.4. Arwain a rheoli'r drefn o hyrwyddo a chefnogi arferion gofal corfforol diogel ar gyfer plant 7.5. Arwain a rheoli darpariaeth maeth a hydradiad cytbwys i blant
8. Arwain a rheoli'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi	8.1. Arwain a rheoli trochi ieithyddol yn y gweithle/lleoliadau 8.2. Arwain a rheoli ymarfer i gefnogi plant i gaffael iaith newydd drwy drochi
9. Arwain a rheoli cymorth i deuluoedd ddatblygu sgiliau magu plant	9.1. Arwain y defnydd o ymchwil a gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi gwaith gyda theuluoedd / gofalwyr 9.2. Cefnogi'r broses o gymhwyso a deall datblygiad plant 9.3. Arwain cymorth i weithwyr sefydlu dulliau o ddatblygu rhianta cadarnhaol gyda theuluoedd/gofalwyr 9.4. Arwain a rheoli cymorth priodol i deuluoedd er mwyn cydnabod ffactorau sy'n cael effaith ar eu sgiliau magu plant 9.5. Arwain a rheoli cymorth i deuluoedd/gofalwyr i fyfyrio ar eu sgiliau magu plant a'u datblygu 9.6. Arwain gwaith partneriaeth i gynorthwyo teuluoedd/gofalwyr 9.7. Arwain a rheoli'r gwaith o gyflwyno rhaglenni rhianta
10. Arwain a rheoli sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu	10.1. Arwain a rheoli arferion sy'n adlewyrchu canllawiau a fframweithiau sy'n cefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu 10.2. Arwain a rheoli arferion sy'n cefnogi datblygiad lleferydd, iaith, cyfathrebu a llythrennedd 10.3. Arwain a rheoli arferion er mwyn adlewyrchu fframweithiau damcaniaethol sy'n sail i ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu 10.4. Arwain a rheoli arferion sy'n cefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu 10.5. Arwain a rheoli'r broses o ddatblygu amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol yn eich lleoliad 10.6. Arwain a rheoli arferion cynhwysol i gefnogi plant sydd ag anghenion lleferydd,

	iaith a chyfathrebu 10.7. Arwain a rheoli'r gwaith o gynllunio a gwerthuso strategaethau ac ymyriadau i gefnogi datblygiad plant ag ALlICh o fewn eich gweithle/lleoliad
11. Arwain a rheoli gwasanaethau i blant ag anghenion ychwanegol	11.1. Arwain a rheoli arferion i adlewyrchu ymchwil, deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol mewn perthynas ag anghenion ychwanegol 11.2. Arwain a rheoli arferion i gefnogi'r broses o adnabod anghenion ychwanegol yn gynnar 11.3. Arwain a rheoli'r broses o gynllunio a chynorthwyo plant ag anghenion ychwanegol 11.4. Arwain a rheoli'r gwaith o hyrwyddo arferion cynhwysol yn eich gweithle/lleoliad 11.5. Arwain a rheoli ymarfer i gefnogi ymddygiad cadarnhaol wrth weithio gyda phlant
12. Arwain a rheoli gwelliant parhaus drwy'r prosesau rheoleiddio	12.1. Arwain a rheoli lleoliadau i sicrhau eu bod yn bodloni ac yn ymgorffori safonau a gofynion rheoleiddio 12.2. Arwain a rheoli'r ymateb i ofynion ac argymhellion
13. Arwain a rheoli ymarfer gwasanaethau iechyd plant	13.1. Arwain a rheoli arferion sy'n cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol penodol, canllawiau polisi cenedlaethol a safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd plant 13.2. Arwain a rheoli arferion sy'n ymgorffori gwerthoedd sefydliadol mewn gwasanaethau iechyd plant 13.3. Arwain a rheoli cymorth parhaus i ddiwallu anghenion gofal corfforol plant 13.4. Arwain a rheoli cynlluniau rhyddhau cyfannol 13.5. Arwain a rheoli gofal y plentyn sy'n dirywio 13.6. Arwain a rheoli llwyth gwaith ac adnoddau'r gwasanaeth iechyd plant. 13.7. Arwain a rheoli arferion sy'n cefnogi'r farn gyfannol am les plant gan gynnwys parch at ddewisiadau LGBTQ+ 13.8. Arwain a rheoli arferion sy'n cefnogi'r farn gyfannol am iechyd plant gan gynnwys y rhai sydd â chyflyrau iechyd meddwl 13.9. Arwain a rheoli arferion sy'n cefnogi'r farn gyfannol am iechyd plant gan gynnwys y rhai sy'n byw ag anabledd dysgu ac awtistiaeth 13.10. Arwain a rheoli arferion sy'n cefnogi'r farn gyfannol am iechyd plant gan gynnwys y rhai sy'n byw ag anabledd 13.11. Arwain a rheoli'r broses o gynllunio cefnogaeth i blant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd 13.12. Arwain a rheoli cymorth ar gyfer yr agenda rheoli meddyginiaethau yn y maes clinigol 13.13. Arwain a rheoli cefnogaeth i'r Gymraeg yn y gwasanaeth iechyd plant 13.14. Arwain a rheoli cyfarfodydd

14. Arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol	14.1. Deall pwrpas ac egwyddorion trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol 14.2. Arwain a rheoli'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'n effeithiol drwy drefniadau gweithio rhyngbroffesiynol 14.3. Arwain a rheoli'r gwaith o gyflawni cynlluniau y cytunwyd arnynt 14.4. Gwerthuso effeithiolrwydd gwaith tîm rhyngbroffesiynol yn feirniadol
15. Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr	15.1. Deall rôl gwirfoddoli ar gyfer darparu gwasanaeth 15.2. Paratoi ar gyfer defnyddio gwirfoddolwyr yn y gwasanaeth a ddarperir 15.3. Arwain a rheoli'r broses o recriwtio a dethol gwirfoddolwyr 15.4. Arwain a rheoli cymorth i wirfoddolwyr
16. Arwain a rheoli cynllunio a phrosesau busnes	16.1. Cymhwyso egwyddorion cynllunio busnes 16.2. Datblygu, gweithredu, adolygu a gwerthuso cynlluniau strategol a gweithredol ar gyfer darparu gwasanaethau
17. Sgiliau astudio	17.1. Deall offer a thechnegau i ddatblygu sgiliau dysgu ac astudio 17.2. Cymhwyso'r defnydd o sgiliau astudio 17.3. Deall sut i ddefnyddio sgiliau ymchwil